



**Adroddiad Cyfarfod**

**12:10:22**

**Ann Catrin Evans**

### **Materion y Gangen**

1. Swper Nadolig - Bu rhaid newid y lleoliad i Newborough Arms yn Bontnewydd - penderfynwyd i gael bws i'n cludo yno. Fe ranwyd bwydleni ar gyfer dewis .
2. Fe fydd y Cwis Hwyl eleni yn cael ei gynnal yng Ngwesty Meifod, Bontnewydd ar 11 TACHWEDD. Enwau i Gwenan . Timau i fyny at 4. Fe fydd dewis o naill ai salad ham neu eog ar gael a phaned o de neu goffi a hynny am £20 y pen.
3. Diolch i Delwedd am gynnal y wefan – ystadegau yn dangos dros 4mis o fis Gorffennaf i Hydref ein bod wedi cael 3,755 o ymweliadau a 24,431 o 'hits'

### **Pwyllgor yr Eisteddfod THEMA: LLWYBRAU**

- a. Bydd MYW yn paratoi Cyflwyniad a fydd yn para rhyw 25 munud. Penderfynwyd fod pawb sydd a diddordeb mewn cymryd rhan yn y cyflwyniad mewn unrhyw fodd, boed ar y llwyfan neu gefn llwyfan, i ymuno mewn cyfarfod dros zoom nos Fawrth Hydref 25ain.
- b. URDDO. Am y tro cyntaf erioed, bydd Urddo Llywydd newydd(Geunor Roberts) yn digwydd yn y Gogledd.
- c. Dywedodd Freda y bydd hi yn paratoi Rota'r canghennau i weini yn y babell.
- d. RAFFL. Penderfynwyd gofyn i bob cangen gyfrannu £10 at wobrau ariannol, neu iddynt chwilio am wobrau yn lleol.

### **Pwyllgor Celf a Chrefft**

Cynhaliwyd Pwyllgor Celf a chrefft, Rhanbarth Arfon ar 6 Hydref 2022.

1. Meira, Owena a Mair R wedi mynd i'r pwyllgor. Cynrychiolaeth dda o ganghenau Arfon.
2. Cadeirydd Jên (Tregarth), Ysg. Linda Jones (Rhiwlas)

3. Ffair Aeaf – annog cystadlu.

Dewis o dair cystadleuaeth:

a. Seren – unrhyw gyfrwng

b. Unrhyw eitem Nadoligaidd

c. Ysgyfarnog neu Gwningen (unrhyw gyfrwng)

4. Coginio teisien Nadolig i unigolyn wedi ei haddurno, agored i bob aelod, hyd at ddwy ymgais ymhob dosbarth, ANGEN COFRESTRU ERBYN YFORY (yn y Swyddfa erbyn Dydd Gwener). Eitemau i fod yn y Ganolfan Genedlaethol erbyn 20 Tachwedd, neu yn Llanelwedd 27 Tachwedd.

5. Pwyllgor nesaf Celf a Chrefft yn Neuadd Rhiwlas ar 10 Tachwedd. Cyfle i greu eitem Nadoligaidd i'w gyrru i'r sioe. Croeso i unrhyw un a diddordeb.

6. Sioe Llanelwedd 2023. Bwriadu cystadlu. Gweithio ar yr eitemau ar gyfer y gystadleuaeth erbyn arddangosfa ar ddechrau Mehefin. (2 neu 9) Cynnal noson yn Neuadd Bethel efo crefftwraig wadd + arddangosfa o waith aelodau + eitemau ar gyfer y sioe. Cais i Gangen Bethel fod yn gyfrifol am y baned ar y noson.

7. Dim newydd hyd yn hyn ar gyrsiau Crefft y Gogledd.

8. Gwahoddiad i ymuno yn y pwyllgor ar gyfer Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd – i drefnu'r arddangosfa ym mhabell y Mudiad. Cynrychiolwyr o'r Pwyllgor am fynd ac adrodd yn ôl ar y gofynion!

## **Gwraig Wadd**

Yr oedd yr aelodau yn ôl yn y Neuadd ac fe groesawyd Ann Catrin Evans atom. Merch fferm o Dregarth sydd wedi ymagtrefu yng Nghaernarfon, ac yn un o'r crefftwyr sydd yn rhedeg Siop Iard yng Nghaernarfon. Yn dilyn cyfnod yn y coleg ym Mangor ac yna yn Brighton, dechreuodd ei gwaith fel gof o'r beudy yn ei chartref, cyn symud i'r efail yn Glynllifon. Dechreuodd drwy greu dolenni drysau mewn haearn. Ar ôl ennill Medal Aur am gampwaaith Crefft yn Eisteddfod Llanelwedd 1993, dechreuodd greu cerfluniau mawr iawn, ac mae ei campweithiau i'w gweld ar hyd y wlad. Gallwch weld ei cherfluniau yng Nghaergybi, Abermaw, Canolfan Mileniwm yng Nghaerdydd, Aberystwyth, a nifer o lefydd eraill. Ei gwaith yn cael ei ysbrydoli gan y byd o'i chwmpas, ei chefnidir amaethyddol a soniodd fel yr

oedd yn ymchwyllo i gefndir y gwahanol lefydd cyn eu trawsnewid i waith haniaethol. Ar ôl damwain ddifrifol fe newidiodd i weithio efo deunydd mwy ysgafn ac y mae hi bellach yn adanbyddus am greu coronau eisteddfodol, tlysau a gemwaith gain.

Diolchodd Nan Rowlands iddi am noson ddifyr tu hwnt

Dymuniadau gorau i Mair Williams sydd wedi cael yr ail benglin newydd yn ddiweddar, gobeithio am adferiad buan iddi, ac y byddwn yn ei gweld yn cerdded o amgylch y pentref yn fuan. Braff oedd gweld Mabel yn ôl efo ni ar ôl ei thriniaeth hi.

Diolch i Jen, Anne a Liz am baratoi paned. Braff iawn ydi cael yr hen drefn yn ôl o fedru cael paned a chymdeithasu yn ein cyfarfodydd.

Ennillwyd y raffyl gan Meira